
# Mae'n Swnio Mor Syml



# Nod y Sesiwn

I'ch helpu i ddysgu am ddatblygiad sain lleferydd, fel pryd a sut mae'n digwydd.

I roi cyngor a strategaethau i chi a fydd yn eich helpu i gefnogi sgiliau sain lleferydd eich plentyn gartref wrth i chi aros am eich apwyntiad cyntaf.



# Cyflwyniad

- Mae eich plentyn yn **gwneud ei orau i siarad** ac rydych chi'n **ceisio'ch gorau i helpu**
- **Mae datblygu seiniau lleferydd yn broses gymhleth**
- Efallai y bydd angen **ychydig o help** ar eich plentyn gyda'u synau. Ein rôl ni yw **eich cefnogi** gyda hyn




# Amser Cwis! Gwir neu Gau?

- **Mae iaith a lleferydd yr un peth** ❌ Gau
- **Dylai plant allu defnyddio eu holl synau erbyn 4 oed** ❌ Gau
- **Gall gwallau sain lleferydd effeithio ar lythrennedd** ✅ Gwir
- **Bydd 1 o bob 20 o blant ifanc yn cael rhywfaint o anhawster wrth siarad** ❌ Gau

# Gallwch chi wneud y gwahaniaeth


| | Monday | Tuesday | Wednesday | Thursday | Friday | Saturday | Sunday |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 7:00 | Home | Home | Home | Home | Home | Home | Home |
| 8:00 | Home | Home | Home | Home | Home | Home | Home |
| 9:00 | School | School | School | School | School | Home | Home |
| 10:00 | School | School | School | School | School | Home | Home |
| 11:00 | School | School | School | School | School | Home | Home |
| 12:00 | School | School | School | School | School | Home | Home |
| 13:00 | School | School | School | School | School | Home | Home |
| 14:00 | School | School | School | [ SLT ] | School | Home | Home |
| 15:00 | School | School | School | Home | School | Home | Home |
| 16:00 | Home | Home | Home | Home | Home | Home | Home |
| 17:00 | Home | Home | Home | Home | Home | Home | Home |
| 18:00 | Home | Home | Home | Home | Home | Home | Home |
| 19:00 | Home | Home | Home | Home | Home | Home | Home |
| 20:00 | Home | Home | Home | Home | Home | Home | Home |

# Y Pyramid Cyfathrebu



# Blociau Adeiladu Cyfathrebu

- Mae sgiliau **Cyfathrebu** yn seiliedig ar **sylwi**, **chwarae** a **rhyngweitho**
  - Mae angen i blant **ddeall geiriau** a **brawddegau** *cyn* dysgu eu eu **defnyddio**
- Mae angen **amser** arnyn nhw i **ymarfer defnyddio brawddegau** *cyn* y byddan nhw'n barod i weithio ar **seiniau lleferydd**




# Beth all effeithio ar ddatblygiad seiniau lleferydd?

**Canolbwyntio a Gwrando**

- Mae sylwi a gwrando yn **sgiliau gwahanol** i allu eich plentyn i glywed
- Mae sgiliau sylwi a gwrando yn cymryd **amser** ac ymarfer i'w dysgu
- Byddai ein **disgwyliadau** o ran sgiliau sylwi a gwrando **plentyn 3 oed** yn **wahanol iawn** i rai **plentyn 6 oed**
- Mae angen **sgiliau gwrando da iawn** ar blant er mwyn **sylwi** ar y **synau** sy'n ffurfio geiriau
- Mae rhai plant sydd ag anawsterau lleferydd **yn ei chael yn anodd gwrando** a **chanolbwyntio** ar dasg a arweinir gan oedolyn

# Sut Galla i Helpu?

- Ceisiwch **arafu** pan fyddwch chi'n siarad â'ch plentyn
- **Dywedwch enw eich plentyn.** Rhowch eiliad iddo **symud ei sylw** atoch chi
- **Ewch i lawr i lefel eich plentyn**, fel y gall weld eich ceg yn symud
- **Ceisiwch leihau sŵn cefndir** os yn bosibl e.e. diffoddwch y teledu
- Meddyliwch am **ba mor hir** y bydd eich plentyn yn gwrando, o ystyried ei **oedran/cyfnod datblygiad**
- **Canmolwch** eich plentyn am **wrando'n dda**
- Defnyddiwch gadair **gyda chynhaliaeth da i'r cefn**
- **Chwaraewch gemau sy'n annog gwrando** fel cerfluniau cerddorol
- **Tynnwch ei sylw at synau yn ei amgylchedd**




# Beth all effeithio ar ddatblygiad seiniau lleferydd?

## Clyw

- **Trafodwch unrhyw bryderon sydd gennych am glyw eich plentyn gyda ni**
- Efallai y bydd gan rai plant anawsterau sain lleferydd am **nad ydyn nhw’n gallu eu clywed yn** gywir.
- Mae gormod o **gwyr yn y glust** yn achos cyffredin anawsterau clywed mewn plant ifanc.

Mae’n bwysig meddwl am y canlynol:

- Oes **hanes teuluol** o anawsterau clywed?
- Ydy'ch plentyn yn dioddef o **anwydau rheolaidd**?
- A yw’n dweud '**beth**' yn aml?
- Oes angen troi sŵn y teledu/llechen **i fyny’n uchel**?
- A yw’n ymddangos i fod yn **poeni** am ei glustiau? e.e. cwyno neu’n eu tynnu nhw
- A yw’n **troi pan fydd ei enw yn cael ei alw**?



# Beth all effeithio ar ddatblygiad Seiniau Lleferydd?

**Dymis a Photeli**

- Gall dymis a photeli fod yn ddefnyddiol i **fabanod ifanc** ond maen nhw’n **llai defnyddiol**
  ar ôl c**hwe Mis**.
- Gall defnydd rheolaidd ar ôl **12 mis greu problemau** i blant, fel:
  - **Llai o glebran**, sy'n **gam bwysig** sydd ei angen cyn y gall plentyn siarad
  - Mae’n **fwy tebygol** o gael trafferth wrth ddysgu defnyddio **seiniau sydd ar flaen ei geg**
  - Mae’n fwy tebygol o ddatblygu **gormod o gwyr yn y glust**
  - **Problemau deintyddol** a achosir gan ddannedd y plentyn yn tyfu mewn siâp bwa o amgylch y dymi

“For clear speech keep my dummy out of reach”



# Cyngor a Syniadau Dymi/Potel

- **Tynnwch y dymi allan bob amser** pan fydd eich plentyn yn **gwneudsynau** a/neu'n **siarad**
- **Ceisiwch osgoi** dibynnu ar ddymi i **gysuro'ch** plentyn
- Unwaith y byddwch wedi penderfynu rhoi'r gorau i'r dymi, peidiwch **â chael eich temtio i'w roi yn ôl** a gwnewch yn siŵr **nad oes dim ohonyn nhw ar ôl** o gwmpas y tŷ
- Helpwch eich plentyn **i dderbyn bod y dymi wedi mynd** trwy ddweud wrtho ei fod yn fachgen mawr/merch fawr nawr.
- Efallai gallech chi wneud i'ch plentyn gadael y **dymi ar gyfer y dylwyth teg dannedd** neu **Siôn Corn / Cwningen y Pasg**



# Cwlwm tafod

- Mae hyn yn digwydd pan fydd y stribed o groen sy'n cysylltu'r **tafod** â **gwaelod** y geg yn **fyrrach** nag arfer
- Mae hyn yn effeithio ar **4-11% o fabanod newydd-anedig** ac mewn achosion difrifol gall **effeithio ar symudiad eu tafod**
- Fodd bynnag, **nid yw** cael cwlwm tafod fel arfer yn effeithio ar sgiliau sain lleferydd plant
- **Gall** y rhan fwyaf o blant symud eu tafod yn **ddigon da** o hyd i fwyta a defnyddio eu holl seiniau lleferydd


# Datblygiad Seiniau Lleferydd

- Mae **pob** plentyn yn **cyfnewid** neu'n **gadael synau allan** pan fyddan nhw'n dysgu siarad
- Weithiau mae plant yn **dal i ddysgu** defnyddio eu holl **seiniau lleferydd** hyd at **8 oed**
- Pan fyddwn yn siarad, mae aer yn dod o'r ysgyfaint, drwy'r **blwch llais**, ac allan o'r **geg.** Rydym yn siapio synau gan ddefnyddio **gwahanol rannau** o'r **tafod, gwefusau, dannedd a thop y geg** er mwyn dweud geiriau.
- Cofiwch pan oedd eich plentyn yn **dysgu cerdded** - roedden nhw'n **siglo** ac yn **syrthio** nes iddyn nhw fod wedi cael **llawer o amser i ymarfer**

# Camau Ymarfer Sain Lleferydd


- Ar ôl yr asesiad, efallai y bydd eich Therapydd Iaith a Lleferydd yn dewis **1-2 sain** i'ch plentyn eu hymarfer
- Bydd hyn yn dibynnu ar **oedran** eich plentyn, y **mathau o anawsterau** y mae eich plentyn yn eu cael, ac a oes ganddo **unrhyw hanes o anawsterau** wrth **ddefnyddio geiriau** a **brawddegau.**
- Mae yna gyfres o **gamau gwahanol** y bydd angen i blant weithio drwyddyn nhw, i'w helpu i ddysgu sain newydd
- Mae'n bwysig eich bod yn gweithio drwy'r camau hyn **ar gyflymder eich plentyn**
- Efallai y byddwn ni hefyd **yn cyflwyno system arwyddo** i'ch plentyn ei defnyddio **ochr yn ochr â'i leferydd**

# Camau Ymarfer Sain Lleferydd



# Strategaethau ar gyfer Cefnogi Eich Plentyn Gartref

"Gadewch i mi glywed sut y dylwn ddweud fy ngeiriau"



"Helpwch fi i ddefnyddio gweithredoedd i ddangos i chi beth rydw i eisiau"

"Ewch lawr i fy lefel i"

# Strategaethau ar gyfer Cefnogi Eich Plentyn Gartref

"Dangos eiriau eraill i mi sydd â fy sain ynddyn nhw"



"Dangos i mi sut i glapio'r curiadau mewn geiriau"

# Rydym yn gwerthfawrogi eich adborth

- Allech chi roi adborth ar y sesiwn heddiw drwy ddilyn y ddolen neu sganio'r cod QR isod:

https://forms.office.com/e/02GJTYgy8W?origin=lprLink

# Beth sy'n digwydd nesaf?

- Byddwch chi a'ch plentyn yn cael cynnig apwyntiad **i siarad am ei sgiliau sain lleferydd**

- Yn yr apwyntiad hwn, bydd y therapydd yn **trafod eich pryderon** ac yn penderfynu a fydd Therapi Iaith a Lleferydd o fudd i'ch plentyn

- Os bydd therapi o fudd, bydd y therapydd yn trafod ac yn cytuno â chi **sut y gallwn eich cefnogi**